LC 8 (Adroddiaid)

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU**

**GORCHYMYN ADDYSG (APELAU DERBYNIADAU YSGOL: COD YMARFER CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU) (DIWRNOD PENODEDIG) 1999**

## Cefndir

1. Mae Adran 84 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi Cod Ymarfer (neu Godau Ymarfer ar wahân) yn cynnwys canllawiau ymarferol yngln â chyflawni swyddogaethau derbyniadau ysgol gan awdurdodau addysg lleol, cyrff llywodraethu, paneli a dyfarnwyr apelau.
2. Mae darpariaeth yn y Ddeddf ar gyfer gosod Cod Ymarfer gerbron y Senedd, a'i gyhoeddi os na chaiff penderfyniad yn ei erbyn ei basio. Datgymhwysir y ddarpariaeth hon yng Nghymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru.
3. Ymdrinnir ar wahân â'r mater o ba bryd y bydd y cod yn dod i rym mewn gwirionedd drwy wneud Offeryn Statudol sy'n pennu dyddiad penodol iddo ddod i rym.
4. Daeth Cod yn cynnwys canllawiau i awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethu yngln â derbyniadau i rym cyn i swyddogaethau gael eu trosglwyddo i'r Cynulliad. Mae'r Cod y mae'r Gorchymyn presennol yn ymwneud ag ef yn ymdrin â'r mater neilltuol o ganllawiau yngln ag apelau derbyniadau ysgol.
5. Cyhoeddwyd y Cod Ymarfer ar 20 Awst. Fe'i proseswyd o dan Ran Pump o Reol Sefydlog 22 fel is-ddeddfwriaeth nad oedd yn ofynnol ei gwneud drwy offeryn statudol. Daeth Ysgrifennydd perthnasol y Cynulliad i'r casgliad (o dan RhS 22.51) nad oedd yn briodol i'r Pwyllgor Deddfau ei ystyried. Rhagdybir mai'r rheswm am hyn oedd yr angen i drefnu bod y Cod yn cael ei gyhoeddi ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd. Hwyrach y bydd gan Glerc y Pwyllgor wybodaeth bellach am hyn erbyn i'r Pwyllgor gyfarfod.
6. Mae 46 tudalen yn y Cod. Mae'n esbonio'r gyfraith sy'n gymwys o dan y Ddeddf ac mae'n cynnwys canllawiau ynghylch sut y dylid sefydlu a chynnal paneli apelau.
7. Y cyfan y mae'r Gorchymyn presennol yn ei wneud yw darparu bod y Cod Ymarfer yn dod i rym ar 1 Medi.

## Rheol Sefydlog 11.5

8. Ni nodwyd unrhyw bwyntiau fel materion y dylai'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt yn unol â RhS 11.5.

9. Serch hynny, tynnir sylw'r Pwyllgor at rai mân bwyntiau. Gellir cynnwys y rhain, os credir y byddai'n briodol, fel sylwadau cyffredinol yn yr Adroddiad i'r Cynulliad.

**Nodyn Esboniadol**

10. Mae'r paragraff cynderfynol yn cyfeirio at y ffaith bod y Cod Ymarfer cynharach wedi'i gyhoeddi ar 20 Awst. Mae cyfeiriad anghywir yn hwnnw at ddyddiad y Cod presennol. Daeth y Cod cynharach i rym ar 1 Ebrill 1999 a bydd wedi'i gyhoeddi ar ddyddiad ychydig yn gynharach na hynny. Caiff y camgymeriad hwn ei gywiro yn y fersiwn gyhoeddig.

**Dyddiad Gwneud**

11. Gan mai Gorchymyn a wnaed ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor o dan RhS 22.26 yw hwn, dylai dyddiad ei wneud fod wedi'i fewnosod.

**Troednodiadau**

12. Nid yw'r diwyg yn hollol gywir ar y copi a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. Mae rhai o'r troednodiadau ar y tudalen anghywir. Rhoddir sylw i hyn yn y copi printiedig.

**Llofnod**

13. Gan mai Gorchymyn a wnaed ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor o dan RhS 22.26 yw hwn, dylai dyddiad ei lofnodi a nod yn cadarnhau iddo gael ei lofnodi fod wedi'i fewnosod.

**JOHN H TURNBULL**

**Ymgynghorydd Cyfreithiol**

**Y Pwyllgor Deddfau**

20 Medi 1999

Cyf: LAD 01-01-005 999JT22

–

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**1999 Rhif (C. )**

**ADDYSG, CYMRU**

**Gorchymyn Addysg (Apelau Derbyniadau Ysgol: Cod Ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru)**

**(Diwrnod Penodedig) 1999**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**1999 No. (W. )**

**EDUCATION, WALES**

**The Education (School Admission Appeals: The National Assembly for Wales Code of Practice) (Appointed Day) Order 1999**

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Order)*

Mae Adran 84 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi Cod Ymarfer yn cynnwys y canllawiau ymarferol y mae'n credu eu bod yn briodol, o ran cyflawni swyddogaeth dderbyn gan awdurdodau addysg yn ôl lleoliad gan awdurdodau addysg, cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir a phaneli apelau derbyniadau.

Mae Adran 85 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cod Ymarfer ar Apelau Derbyniadau ddod i rym drwy Orchymyn.

Mae'r Cod Ymarfer yn gymwys yn bennaf i apelau derbyniadau ar gyfer y nifer a dderbynnir i ysgolion cynradd ac uwchradd o 2000/2001 ymlaen ac mae'n ymdrin â dau gategori ar wahân o apelau derbyn:

- apelau gan rieni yn erbyn penderfyniad gan awdurdod derbyn ysgol i wrthod cynnig lle i'w plentyn yn yr ysgol o dan sylw; ac

- apelau gan gyrff llywodraethu ysgolion cymunedol neu ysgolion gwirfoddol a reolir yn erbyn penderfyniad gan AALl i dderbyn plentyn i'r ysgol sydd gynt wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy neu ragor o ysgolion.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 1 Medi 1999 fel y diwrnod y daw Cod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Apelau Derbyniadau i rym. Mae Cod sy'n cynnwys

Section 84 of the Schools Standards and Framework Act 1998 requires the National Assembly to issue a Code of Practice containing such practical guidance as it thinks appropriate, in respect of the discharge of admission function by location education authorities, the governing bodies of foundation and voluntary aided schools and admission appeal panels.

Section 85 of the School Standards and Framework Act 1998 requires that the Code of Practice on Admission Appeals is brought into force by an Order.

The Code of practice mainly applies to admission appeals for primary and secondary school intakes from 2000/2001 onwards and deals with two separate categories of admission appeals:

- appeals by parents against a decision by a school admission authority to refuse to offer their child a place at the school in question; and

- appeals by governing bodies of community or voluntary controlled schools against a decision by a LEA to admit to the school a child who has previously been permanently excluded from two or more schools.

canllawiau i awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ar eu cyfrifoldebau mewn perthynas â derbyniadau eisoes wedi'i gyhoeddi ar 20 Awst 1999.

This Order appoints 1st September 1999 as the day on which the National Assembly’s Code of Practice for School Admission Appeals takes effect. A Code containing guidance to local education authorities and governing bodies of maintained schools on their responsibilities in respect of admissions has already been issued on 20th August 1999.

Gellir cael copïau o'r ddau God o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. Mae modd eu gweld hefyd ar y Rhyngrwyd yn www.cymru.gov.uk.

Copies of both Codes may be obtained from the National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ. They are also accessible on the Internet at www.wales.gov.uk.

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**1999 Rhif (C. )**

**ADDYSG, CYMRU**

**Gorchymyn Addysg (Apelau Derbyniadau Ysgol: Cod Ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru)**

**(Diwrnod Penodedig) 1999**

*Wedi'i wneud* . . . . .

*Yn dod i rym -* 1 Medi 1999

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 85(5) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998***(a)*** ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad***(b)*** .

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**1999 No. (W. )**

**EDUCATION, WALES**

**The Education (School Admission Appeals: The National Assembly for Wales Code of Practice) (Appointed Day) Order 1999**

*Made* . . . . .

*Coming into force -* 1st September 1999

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 85(5) of the School Standards and Framework Act 1998**(a)** and now vested in the Assembly**(b)** .

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Apelau Derbyniadau Ysgol: Cod Ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwrnod Penodedig) 1999.

**Citation**

**1.** This Order may be cited as the Education (School Admission Appeals: The National Assembly for Wales Code of Practice) (Appointed Day) Order 1999.

**Diwrnod Penodedig**

**2.** Pennir drwy hyn 1 Medi 1999 fel y dyddiad y daw "Apelau Derbyniadau Ysgol: Cod Ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru"***(c)*** a gyhoeddir yn unol ag adran 84 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

ar 20 Awst 1999 i rym.

**Appointed Day**

**2.** 1st September 1999 is hereby appointed as the day on which "School Admission Appeals: The National Assembly for Wales Code of Practice"**(c)** issued pursuant to section 84 of the School Standards and Framework Act 1998 on 20 August 1999 shall come into force.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ***(d)***.

Signed on behalf of the Assembly under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(d)** .

1999

1999

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

The Presiding Officer of the National

Assembly for Wales